Hawdd ei Ddeall

# Bywyd yng Nghymru i bobl ag anabledd dysgu

mencap Cymru

# Defnyddio'r adroddiad yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Adroddiad Cyflwr y Genedl 2025: Lleisiau dinasyddion ag anabledd dysgu Cymru.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud *ni*, mae hyn yn meddwl **Mencap Cymru.** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** wales.mencap.org.uk/cy

**Facebook:** facebook.com/MencapCymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys

Am yr adroddiad yma............................4

Beth rydyn ni wedi ei wneud..............6

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod....8

Beth nesaf............................................. 10

# Am yr adroddiad yma



Mae'r adroddiad yma am sut beth ydy bywyd yng Nghymru i bobl ag anabledd dysgu.



Mae'r adroddiad yma wedi ei seilio ar beth mae pobl ag anabledd dysgu wedi ei ddweud.



Mae'r adroddiad yma yn rhoi golwg gyflym ar rai o'r materion mwyaf.

# Am yr adroddiad yma



Rydyn ni eisiau i bleidiau gwleidyddol a rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddarllen yr adroddiad yma.



Felly maen nhw'n gallu gwneud newidiadau sy'n helpu i wella bywydau pobl ag anabledd dysgu.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaethon ni ofyn i bobl ag anabledd dysgu ddweud beth roedden nhw’n feddwl trwy arolwg.




Fe wnaethon ni anfon yr arolwg ym mis Mehefin 2025.



Fe wnaethon ni gynnal 2 ddigwyddiad ym mis Mai i ofyn i bobl ag anabledd dysgu beth ddylai fod yn ein harolwg. Fe wnaethon ni weithio gyda phobl fel partneriaid cyfartal.



Fe wnaeth 427 o bobl ateb yr arolwg. Roedden ni’n gallu defnyddio atebion gan 236 o bobl.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaeth pobl ateb yr arolwg ar-lein ac yn bersonol. Roedden nhw'n gallu ateb yn Saesneg neu Gymraeg.



Fe wnaethon ni hefyd anfon copïau papur o'r arolwg at bobl oedd eisiau nhw.




Diolch i bawb wnaeth ein helpu ni i rannu'r arolwg yma. Diolch i bawb wnaeth ateb a dweud beth roedden nhw'n feddwl.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



**Dyma beth ddywedodd pobl ag anabledd dysgu:**



Dywedodd 4 ym mhob 20 nad ydyn nhw'n teimlo'n rhan o'u cymuned.



Dywedodd 4 ym mhob 20 nad ydyn nhw'n dewis ble maen nhw'n byw, na gyda phwy maen nhw'n byw.



Dywedodd 5 ym mhob 20 nad oedden nhw wedi cael cynnig Archwiliad Iechyd Blynyddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hwn yn archwiliad iechyd am ddim mae pobl ag anabledd dysgu yn gallu ei gael bob blwyddyn.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Dywedodd 8 ym mhob 20 eu bod yn ei chael hi'n anodd cael eu Archwiliad Iechyd Blynyddol.



Dywedodd dros 5 o bob 20 nad oes ganddyn nhw docyn bws.




Dywedodd y mwyafrif bod yn well ganddyn nhw brynu pethau gydag arian parod.



Dywedodd y mwyafrif nad oedd ganddyn nhw bartner rhamantus. Fel cariad.


# Beth nesaf




Dyma ein hadroddiad cyntaf am sut beth ydy bywyd yng Nghymru i bobl ag anabledd dysgu.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu mwy dros y 3 blynedd nesaf i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl ag anabledd dysgu yn cael eu clywed.




Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud i wneud Cymru'n lle gwell i bobl ag anabledd dysgu.




Roedd pobl yn siarad am bethau fel trafnidiaeth, tai ac iechyd a gofal cymdeithasol.

# Beth nesaf




Fe fyddwn ni’n ysgrifennu adroddiad am hyn ac yn ei rannu cyn Etholiad y Senedd yn 2026.



**Dywedodd Kylie Williams, Hunaneiriolwr ac Aelod o Gyngor Lleisiau Mencap:**



Mae’r adroddiad yman yn dangos bod llawer o bobl ag anabledd dysgu yn dal i wynebu problemau byw bywyd llawn.



Mae llawer o’r materion yn yr adroddiad yma yn digwydd yn fy mywyd bob dydd.

# Beth nesaf



Dros y misoedd diwethaf, mae pobl fel fi wedi rhannu ein straeon.




Mae'n bwysig ein bod yn cael ein clywed. Rydyn ni'n gwybod beth sy'n effeithio arnom ni, beth rydyn ni ei angen, a beth sy'n ein helpu.



Os ydy Cymru yn mynd i fod yn lle gwell i bobl ag anabledd dysgu, mae angen i'r bobl sy'n gyfrifol wrando arnom ni a gweithredu.

# Beth nesaf



Cofiwch:

Mae gen i farn.

Mae gen i hawliau.

Mae gen i freuddwydion.



Gwrandwch arnaf i. Parchwch fi. Cynnwys fi.

**Mae fy llais yn bwysig.**



Os oes gennych chi neu aelod o'ch teulu anabledd dysgu neu os ydych chi'n ofalwr i rywun ag anabledd dysgu ac os ydych chi eisiau cyngor, rydych chi'n gallu cysylltu **â Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru:**

**Ebost:** helpline.wales@mencap.org.uk

**Ffôn:** 0808 8000 300